# PROSIECT: **PRYNU DWY FAINC BREN, POTIAU PLANNU A CHOED FFRWYTHAU / CODI GASÎBO A PHLANNU GWRYCH**

YMGEISYDD: **BLODAU BRYNEGLWYS / CAEAU CHWARAE BRYNEGLWYS**

NIFER Y RHANDDEILIAID A FU'N YMWNEUD Â'R PROSIECT
**28**

LLEOLIAD
**BRYNEGLWYS, SIR DDINBYCH**

CYFANSWM GWERTH Y PROSIECT
**£3,363.19 / £19,878.24**



## Y GRONFA CYMUNEDAU GWYRDD

Bwriad y Gronfa Cymunedau Gwyrdd, a weinyddir gan asiantaeth datblygu gwledig Cadwyn Clwyd, yw cefnogi gwelliannau i weithgareddau awyr agored ar gyfer y gymuned, a'r adnoddau cysylltiedig.

Gan ddefnyddio'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, rhoddwyd cymorth i 30 o ardaloedd yn siroedd Dinbych, Conwy, Y Fflint a Wrecsam i drawsnewid llecynnau awyr agored yn fannau lle bydd bywyd gwyllt yn ffynnu a chreu mannau dymunol i fyw, gweithio a chwarae ynddynt.

Mae rhai grwpiau wedi dewis gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar i ostwng allyriadau carbon a helpu i leihau biliau tanwydd.

Derbyniodd y prosiect gyfraniad gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDS). Mae'r gronfa hon yn cynorthwyo prosiectau amgylcheddol arloesol a chynaliadwy sy'n ymwneud â chymunedau lleol yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.



## Y PROSIECT

Fe wnaeth Gill Tustain, un o gynghorwyr cymuned y pentref, a Sian Thomas, cadeirydd pwyllgor y caeau chwarae, Yr Ifanc yn Iâl, arwain ceisiadau ar wahân a arweiniodd at weithredu gwelliannau sylweddol.

Derbyniwyd grant i gynorthwyo Sian a'i thîm i godi gasîbo pren, plannu gwrych newydd a phrynu potiau blodau.

Yn yr ardal gymunedol y mae Gill a'i chyd gynghorwyr yn gyfrifol drosto, gosodwyd dwy fainc bren ar gyfer yr hwb gwybodaeth, a phrynwyd saith cynhwysydd planhigion a deg o goed afalau a cheirios ar gyfer ymyl 40 metr o hyd.

## NODAU'R PROSIECT

Roedd nodau'r datblygiad yn cynnwys gwneud Bryneglwys yn hwb cymunedol, y gellid ei fwynhau gan blant ac oedolion o bob oed.

Meddai Sian: "Un o'n targedau oedd gwella'r caeau chwarae, ac fe lwyddwyd i wneud hynny diolch i'r arian a dderbyniwyd. Fe wnaeth wahaniaeth mawr iawn."

CYMUNEDAU GWYRDD
GREEN COMMUNITIES
CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## GWEITHGAREDD

Roedd Gill a Sian yn ddwy o'r 14 o wirfoddolwyr a fu'n plannu bylbiau un bore Sul yn Rhagfyr y llynedd. Meddai Gill: "Roedd mor braf gweld y gymuned yn dod at ei gilydd."

"Mae clwb garddio ffyniannus yn y pentref a bu rhai o'r aelodau'n helpu drwy ein bwydo gyda choffi a mins peis i greu ymdeimlad Nadoligaidd.

"Bu chwech gwirfoddolwr arall yn plannu'r coed – sef yn bennaf y rhai a oedd ddigon cryf i gloddio'r tyllau!

"Derbyniais e-byst gan nifer o bobl yn dweud mor dda yr oedd y blodau'n edrych wrth iddynt basio heibio, ac mae derbyn canmoliaeth fel yna'n gwneud inni deimlo'n dda, a'r gwaith yn werth chweil.

"Mae'n bwysig hefyd ein bod yn gwella yn hytrach na difrodi'r amgylchedd lleol. Lle bo modd gwneud hynny, rydym wedi defnyddio cynhyrchion ail fywyd."

Mae Gill hefyd yn dymuno diolch yn arbennig i'r tîm Cymunedau Gwyrdd.

Meddai: "Fe dorrais fy mhigwrn mewn tri lle ar ôl llithro ar rew du yn Ionawr 2023 a chael pinnau wedi eu gosod ar y ddwy ochr o ganlyniad i'r anffawd.

"Roeddwn yn gweithio ar y prosiect hwn o'm gwely yn yr ysbyty, ac felly mor braf yw medru gweld y gwelliannau a gyflwynwyd oherwydd derbyn yr arian."



*"AR UN ADEG, CAE CHWARAE DIGON TRIST YR OLWG OEDD YNO – CAE CHWARAE GWAG OEDD YN DESTUN BEIRNIADAETH. DYMA'R TRYDYDD GRANT GWAHANOL A GAFWYD I GYFLWYNO GWELLIANNAU AC RYDYM YN HYNOD O FALCH O'R HOLL WAITH A GYFLAWNWYD."*

*-SIAN THOMAS*

## CANLYNIADAU

Mae Sian, Gill, a chymuned Bryneglwys yn brysur gynllunio gwelliannau pellach.

Meddai Gill: "Rydym rŵan yn gobeithio symud ymlaen gyda'r gwaith o droi'r hen ysgol yn ganolfan i'r gymuned.

"Does dim llawer o fannau cyfarfod hwylus ym Mryneglwys ac felly byddai'n adnodd gwerthfawr dros ben cael lle i bobl fwynhau paned o goffi tra'n gwylio eu plant yn chwarae."

Ychwanegodd Sian: "Y cam nesaf i'r caeau chwarae fydd cae pêl droed bob tywydd gyda physt gôl a hŵps pêl fasged."

*Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.*

Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol / County Borough Council
Cyngor sir ddinbych / denbighshire County Council
Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
wrexham County Borough Council / Cyngor Bwrdeistref Sirol wrecsam
Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy / Clwydian Range and Dee Valley – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol / Area of Outstanding Natural Beauty